Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:
## Rheol Sefydlog 26: Biliau Aelod

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer Biliau Aelod, ac yn argymell newidiadau i'r darpariaethau perthnasol yn Rheol Sefydlog 26 er mwyn:

- Troi'r weithdrefn bresennol, sef gweithdrefn balot sy'n seiliedig ar gynigion, yn weithdrefn balot enw yn unig, gan gynnwys newidiadau i broses y balot a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno cynigion 'caniatâd i gyflwyno' a'u trafod.

- Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch pryd y bydd balotau'n cael eu cynnal a nifer y cyfleoedd i gyflwyno Biliau Aelod ym mhob Senedd.

- Addasu'r rhyngweithio rhwng toriadau'r Senedd a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil Aelod (er mwyn peidio â chwtogi'n anfwriadol yr amser sydd ar gael i'r Aelodau), a galluogi'r Senedd i gytuno drwy gynnig i estyn y terfyn amser.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad 1, a chytuno y dylai'r newidiadau ddod i rym o ddechrau'r

Senedd nesaf. Nodir y Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad 2.

# Cynnwys

**1. Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Aelod ........ 5**

Cylch gorchwyl ........ 5

Casglu tystiolaeth ........ 5

**2. Y cefndir ........ 6**

Y gweithdrefnau presennol ........ 6

Newid gweithdrefnol hyd yma ........ 7

Ystyriaethau nad arweiniodd at gynigion ar gyfer newid ........ 8

Ymatebion i'r ymgynghoriad ........ 8

Amcanion a chanlyniadau Biliau Aelod ........ 9

Arferion a gweithdrefnau mewn deddfwrfeydd eraill ........ 10

**3. Cymorth ac adnoddau ar gyfer Biliau Aelod ........ 13**

Y cefndir ........ 13

Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ........ 13

**4. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ........ 14**

Ystyriaeth gychwynnol ........ 14

Modelau gweithdrefnol posibl ........ 14

Gweithdrefn balot enw yn unig ........ 15

**5. Materion eraill ........ 22**

Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau ........ 22

Cyfranogiad yr Aelodau yng ngwaith craffu'r pwyllgorau ........ 23

**6. Penderfyniad ........ 25**

**Atodiad 1 Rheolau Sefydlog arfaethedig 24 a 26 a nodiadau esboniadol ........ 26**

**Atodiad 2 Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd ... 33**

**RHEOL SEFYDLOG 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth ... 33**

**RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd ... 33**

**Atodiad 3 Balotau ar gyfer Biliau Aelod rhwng 2007 a 2026 ... 36**

**Atodiad 4 Amserlenni dangosol ... 38**

# 1. Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Aelod

## Cylch gorchwyl

**1.** Un o brif gyfrifoldebau'r Senedd yw deddfu. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried a phasio Biliau. Mae'r rhan fwyaf o Filiau'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, ond mae'r rheolau hefyd yn caniatáu i Gomisiwn y Senedd, pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau unigol a ddetholir gyflwyno Biliau.

**2.** Ym mis Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod er mwyn gweld beth sy'n gweithio'n dda, a beth y gellid ei wella. Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd:

> *"Archwilio opsiynau ar gyfer gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd proses y Senedd ar gyfer Biliau Aelod, drwy gymryd y camau a ganlyn:*
>
> - *Adolygu profiadau yn y Chweched Senedd (a Seneddau blaenorol lle y bo'n berthnasol), gan gynnwys gweithdrefnau, arferion, confensiynau, diwylliant a ffyrdd o weithio perthnasol cyn cyflwyno Bil Aelod (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffordd y caiff Aelodau eu dewis ar gyfer y cyfle i gynnig Bil, y broses ar gyfer cael 'caniatâd i gyflwyno', a lefel y wybodaeth y mae'n ofynnol i Aelodau ei darparu ar y camau hyn).*
> - *Nodi unrhyw oblygiadau posibl i'r broses ar gyfer Bil Aelod sy'n deillio o'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd.*
> - *Nodi materion sy'n ymwneud â'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau yn ystod y broses ar gyfer Bil Aelod a'u codi gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd."*

## Casglu tystiolaeth

**3.** Yn ystod gwanwyn 2025, cymerodd y Pwyllgor Busnes y camau a ganlyn:

- Galwodd am dystiolaeth ysgrifenedig.

- Cynhaliodd gyfweliadau a thrafodaethau grŵp gyda chyn-Aelodau ac Aelodau presennol o'r Senedd, swyddogion y Comisiwn, ac Aelodau presennol o seneddau eraill yn y DU sydd â phrofiad o Filiau Aelod.
- Cynhaliodd sesiwn galw heibio i Aelodau o'r Senedd.
- Gwahoddodd Fforwm y Cadeiryddion i rannu ei sylwadau.

**4.** Yn ystod haf a hydref 2025, ystyriodd y Pwyllgor Busnes y dystiolaeth a gasglwyd, trafododd weithdrefnau ac arferion mewn deddfwrfeydd eraill, a daeth i gasgliadau. Lle'r oedd angen gwneud hynny, ymgynghorodd Rheolwyr Busnes â'u grwpiau gwleidyddol ar y casgliadau wrth iddynt gael eu llunio.

# 2. Y cefndir

## Y gweithdrefnau presennol

**5.** Ar hyn o bryd, er mwyn cyflwyno Bil Aelod, rhaid i Aelod wneud y canlynol:

- Cael ei ddethol mewn balot. Cynhelir balotau "o bryd i'w gilydd" yn ôl disgresiwn y Llywydd.[1] I gymryd rhan, rhaid i'r Aelodau gyflwyno teitl ac amcanion polisi arfaethedig y Bil. Ni chaiff Aelodau sydd wedi'u dethol mewn balot ymuno â balotau dilynol yn yr un Senedd.
- Cael 'caniatâd i gyflwyno' gan y Senedd. Mae gan Aelodau sy'n cael eu dethol mewn balot 25 diwrnod gwaith (gan gynnwys diwrnodau mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd) i gyflwyno cynnig i geisio caniatâd i gyflwyno Bil, a gosod memorandwm esboniadol Rheol Sefydlog 26.91A sy'n nodi teitl ac amcanion polisi arfaethedig y Bil, manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd/ymgynghori a wnaed, ac amcangyfrif cychwynnol o unrhyw gostau/arbedion. Rhaid i'r teitl a'r amcanion polisi arfaethedig gyd-fynd yn fras â'r cynnig cyn y balot. Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod y cynnig o fewn 35 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gynnwys diwrnodau mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd).
- Cyflwyno unrhyw Fil sy'n deillio o hynny o fewn 13 mis calendr ar ôl cael caniatâd i'w gyflwyno. Rhaid i'r Bil roi effaith i'r cynigion a gyflwynwyd yn y cyfnod 'caniatâd i gyflwyno'. Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol

[1] Rheol Sefydlog 26.87

gydymffurfio â'r un gofynion gweithdrefnol cyffredinol ag sy'n gymwys i bob Bil a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26 (er enghraifft, gosod memorandwm esboniadol Rheol Sefydlog 26.6, a chydymffurfio â phenderfyniad y Llywydd ar ffurf briodol Biliau Cyhoeddus).

**6.** Ar ôl ei gyflwyno, mae Bil Aelod yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau craffu ac amserlennu ag unrhyw Fil arall a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.[2]

## Newid gweithdrefnol hyd yma

**7.** Cyflwynwyd y weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod[3] yn 2007. Gyda rhai eithriadau (gweler Tabl 1), mae'r weithdrefn wedi aros fwy neu lai yn gyson.

***Tabl 1 Newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod ers 2007***

| Pwnc | Newidiadau |
|---|---|
| **Cymhwystra i ymuno â balot** | Yn wreiddiol, nid oedd Aelod a oedd wedi'i ddethol mewn balot yn cael ymuno ag unrhyw falotau pellach yn ystod y Senedd honno.<br>Cafodd y cyfyngiad ei atal am gyfnod yn ystod y Trydydd Cynulliad ar ôl i ddau falot fethu â denu unrhyw gynigion.<br>Yn 2011, newidiwyd y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu i Aelod a oedd wedi'i ddethol ond nad oedd wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil ymuno â balotau dilynol.<br>Yn 2013, newidiwyd y Rheolau Sefydlog er mwyn mynd yn ôl at y sefyllfa wreiddiol. |
| **Y terfynau amser ar gyfer cyflwyno a thrafod cynigion 'caniatâd i gyflwyno'** | Yn wreiddiol, y terfynau amser yn dilyn balot oedd 10 diwrnod gwaith (gan gynnwys diwrnodau mewn wythnosau nad oeddent yn wythnosau eistedd) i gyflwyno cynnig, ac 20 diwrnod gwaith (heb gynnwys diwrnodau mewn wythnosau nad oeddent yn wythnosau eistedd) i drafod y cynnig.<br>Yn 2011, estynnwyd y terfynau amser i 25 diwrnod gwaith (gan gynnwys diwrnodau mewn wythnosau nad oeddent yn wythnosau eistedd) a 35 diwrnod gwaith |

[2] Ac eithrio Bil llywodraeth y mae'r Senedd wedi cytuno o dan Reol Sefydlog 26.95 i'w drin fel Bil brys llywodraeth.
[3] O dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gelwid cyfreithiau a wnaed gan y Cynulliad yn Fesurau. Yn ystod y cyfnod tra oedd y Cynulliad yn eu hystyried, gelwid y cynigion hynny yn Fesurau arfaethedig. O dan Ran 4 o Ddeddf 2006, gelwir cynigion yn Filiau a gelwir y cyfreithiau a wneir gan y Senedd yn Ddeddfau. Er symlrwydd, dylid darllen cyfeiriadau at 'Fil Aelod' yn yr adroddiad hwn fel cyfeiriadau at 'Fesur arfaethedig Aelod' lle bo hynny'n briodol.

| Pwnc | Newidiadau |
|---|---|
| | (heb gynnwys diwrnodau mewn wythnosau nad oeddent yn wythnosau eistedd), yn y drefn honno. |
| **Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil** | Yn wreiddiol, roedd gan Aelod chwe mis i gyflwyno Bil ar ôl cael caniatâd i'w gyflwyno. Estynnwyd hyn i naw mis yn 2011, ac i 13 mis yn 2016. |
| **Y gofynion o ran gwybodaeth cyn y balot a gwybodaeth 'caniatâd i gyflwyno'** | Yn wreiddiol, roedd rhaid i gynnig cyn y balot gynnwys manylion y gefnogaeth a gafwyd a'r ymgynghori a wnaed.<br>Yn 2016, cafwyd gwared ar y gofyniad hwn, ac yn ei le rhoddwyd gofyniad i ddarparu memorandwm esboniadol i gyd-fynd â chynnig 'caniatâd i gyflwyno', yn nodi teitl ac amcanion polisi arfaethedig y Bil, manylion y gefnogaeth a gafwyd ac asesiad cychwynnol o'r costau. |
| **Trethi** | Yn 2016, ychwanegwyd Rheol Sefydlog newydd i ddarparu na chaiff Biliau Aelod geisio diwygio trethi presennol na chyflwyno trethi newydd. |

## Ystyriaethau nad arweiniodd at gynigion ar gyfer newid

**8.** Yn 2016, ystyriodd Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd a oedd am gynnig y dylid dileu'r gofyniad i gyflwyno cynnig cyn y balot (h.y. newid i falot enw yn unig) ac y dylid cynyddu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno' yn sgil hynny. Penderfynodd gadw'r system bresennol sy'n seiliedig ar gynigion.[4]

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

**9.** Dyma rai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad:[5]

- Barn gymysg ynghylch effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd y weithdrefn bresennol, ac a yw'n rhoi digon o gyfleoedd i'r Aelodau gyflwyno cynigion ac ar gyfer cydweithio trawsbleidiol neu ymgysylltu â dinasyddion.
- Cynigion ar gyfer addasu'r model gweithdrefnol presennol neu fabwysiadu modelau gweithdrefnol gwahanol, gan dynnu sylw at

[4] Y Pwyllgor Busnes, Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26, Tachwedd 2016
[5] Mae'r ymatebion ar gael ar wefan y Pwyllgor Busnes , ar dudalen yr ymgynghoriad.

gyfaddawdu o ran maint y rhwystrau rhag ymuno, yr amser seneddol sydd ar gael, a'r adnoddau sydd ar gael.

- Pwyslais ar lefel a chymhlethdod y gwaith y mae rhaid i Aelod sy'n gyfrifol am Fil Aelod ei wneud, a phryder y gall ymwybyddiaeth o hyn amrywio ymhlith yr Aelodau.
- Sylwadau ar ffynonellau a lefelau adnoddau a chymorth, gan gynnwys gan wasanaethau Comisiwn y Senedd, y Penderfyniad ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol.
- Sylwadau ar gwmpas Biliau Aelod a'u hyd a'u lled, a'r cysylltiadau rhwng hyd a lled, adnoddau a'r tebygolrwydd o sicrhau cefnogaeth wleidyddol.
- Pwyslais ar rôl hanfodol Llywodraeth Cymru.
- Cytundeb ynghylch pwysigrwydd hyfforddiant, darpariaeth gynefino a chanllawiau effeithiol, yn enwedig os bydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau yn arwain at gyfran uwch o Aelodau sydd wedi'u hethol am y tro cyntaf.

## Amcanion a chanlyniadau Biliau Aelod

**10.** Mae cymhellion yr Aelodau dros gyflwyno cynigion ar gyfer Biliau Aelod yn amrywio, fel y mae canlyniadau'r cynigion hynny. Yn y Senedd, fel mewn deddfwrfeydd eraill, siawns gymharol fach sydd o newid y gyfraith. Pan gawsant eu holi am eu profiadau, nododd Aelodau o'r Senedd, Aelodau o ddeddfwrfeydd eraill a swyddogion Comisiwn y Senedd ystod o amcanion ar gyfer Biliau Aelod heblaw newid y gyfraith, gan gynnwys gosod yr agenda, ceisio sicrhau ymrwymiadau gan y llywodraeth, a chodi proffil materion neu gymunedau.[6]

**11.** Gall amlygrwydd cyhoeddus canlyniadau nad ydynt yn rhai sy'n newid y gyfraith fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau a holwyd ar y cyfan yn gallu nodi canlyniadau pendant a ddeilliodd o'u cynigion. Adlewyrchir hyn mewn dadleuon ar gynigion 'caniatâd i gyflwyno' Biliau Aelod y Senedd ac ar gynigion Cyfnod 1 ar eu hegwyddorion cyffredinol ers 2011, sy'n awgrymu bod cynigion nad ydynt wedi newid y gyfraith yn uniongyrchol serch hynny wedi arwain yn aml at ymrwymiadau gan y llywodraeth neu argymhellion polisi gan

[6] Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Aelodau a swyddogion a chanddynt brofiad o Filiau Aelod, Mehefin 2025

bwyllgorau'r Senedd na fyddent, o bosibl, wedi digwydd heb gynnig yr Aelod/Bil yr Aelod.

**12.** Ers 2007, mae 26 o falotau wedi'u cynnal ar gyfer Biliau Aelod, ac o'r rheini, detholwyd 25 o gynigion. Mae Atodiad 3 yn rhoi trosolwg o hynt y cynigion hynny drwy'r weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod. Dyma grynodeb:

- Hyd yma, mae pump (20 y cant) o'r Biliau Aelod a ddeilliodd o'r 25 o gynigion a ddetholwyd mewn balotau ar gyfer Biliau Aelod wedi'u pasio yng Nghyfnod 4, a phedwar[7] (16 y cant) wedi cael y Cydsyniad Brenhinol.[8] Os bydd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn cael ei basio yng Nghyfnod 4 ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol, bydd hyn yn cynyddu i chwech (24 y cant) a phump (20 y cant) yn y drefn honno.

- O fynegi hynny fel canran o'r 12 Bil Aelod sydd wedi'u cyflwyno, mae hyn yn golygu bod 42 y cant wedi'u pasio gan y Senedd hyd yma, a 33 y cant wedi cael y Cydsyniad Brenhinol. Os bydd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn cael ei basio ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol, bydd hyn yn cynyddu i 50 y cant wedi'u pasio a 42 y cant wedi cael y Cydsyniad Brenhinol.

## Arferion a gweithdrefnau mewn deddfwrfeydd eraill

**13.** Mae'n gyffredin i ddeddfwrfeydd fod â gweithdrefnau sy'n galluogi Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r llywodraeth i gyflwyno Biliau. Ond mae'r ffordd y mae'r gweithdrefnau hynny'n gweithio yn amrywio'n fawr. Dywedodd Dr Larissa Peixoto Gomes, cymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Caeredin, mai prin y gwelir balotau'n cael eu defnyddio i gynnig Biliau yn rhyngwladol.[9]

[7] Pasiwyd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), ond fe'i cyfeiriwyd at y Goruchaf Lys wedi hynny. Canfu'r Goruchaf Lys nad oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu'r Bil ar ei ffurf bresennol. Nid oedd y Bil wedi'i gymeradwyo erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, ac felly methodd yn unol â Rheol Sefydlog 26.77.
[8] O dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd angen Cymeradwyaeth Frenhinol ar Fesur arfaethedig er mwyn dod yn gyfraith. O dan Ran 4 o Ddeddf 2006, mae angen y Cydsyniad Brenhinol ar Fil er mwyn dod yn gyfraith. Er symlrwydd, dylid darllen cyfeiriadau at 'y Cydsyniad Brenhinol' yn yr adroddiad hwn fel cyfeiriadau at 'Gymeradwyaeth Frenhinol' lle bo hynny'n briodol.
[9] PBMB11 Dr Larissa Peixoto Gomes, cymrawd ymchwil (Saesneg yn unig)

**14.** Yn ei dystiolaeth, tynnodd Dr Daniel Gover, uwch-ddarlithydd ar wleidyddiaeth Prydain ym Mhrifysgol Llundain Queen Mary,[10] sylw at y cyfaddawdu sy'n digwydd rhwng ffactorau megis y rhwystrau gweithdrefnol y mae rhaid i Aelodau eu goresgyn er mwyn cyflwyno Bil a'i dywys drwy'r gweithdrefnau craffu, yr amser seneddol sydd ar gael a'r ffordd y caiff ei ddyrannu, a'r adnoddau seneddol sydd ar gael. Trafododd Dr Gover bwysigrwydd y swyddogaeth y mae'r ddeddfwrfa'n bwriadu i'r weithdrefn Biliau Aelod ei chyflawni wrth ystyried sut i gydbwyso'r ffactorau hyn:

> *"In systems where some bills are introduced with little realistic prospect of parliamentary time, it is usually accepted that these serve purposes such as agenda setting, signalling and campaigning rather than direct enactment […]. Where there is little chance of genuinely independent non-government bills being passed into law (as opposed to government handouts), it may likewise be argued that significant policy and drafting resources are unnecessary. If, however, the intention is to promote the passage of bills that are genuinely independent of the executive, have policy significance, are competently drafted, and are subjected to proper scrutiny, this will inevitably require greater parliamentary time and resources. This would in turn need to be considered against the wider demands on the chamber, most notably for the scrutiny of government action and legislation."*[11]

**15.** Wrth ystyried gweithdrefnau ac arferion mewn amryw o ddeddfwrfeydd,[12] nodwyd nifer o wahaniaethau allweddol:

- Mathau a lefelau'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn y broses (er enghraifft, defnyddio balotau at wahanol ddibenion, profi cefnogaeth wleidyddol neu fwriad llywodraeth i ddeddfu, gofynion ymgynghori, cyfyngiadau ar niferoedd Biliau neu gyfyngiadau ar amser seneddol).

[10] PBMB14 Dr Daniel Gover, uwch-ddarlithydd ar wleidyddiaeth Prydain ym Mhrifysgol Llundain Queen Mary (Saesneg yn unig)
[11] PBMB14 Dr Daniel Gover, uwch-ddarlithydd ar wleidyddiaeth Prydain ym Mhrifysgol Llundain Queen Mary (Saesneg yn unig)
[12] Gan gynnwys dadansoddiad o wybodaeth a rannwyd â swyddogion gan ddeddfwrfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol (gan gynnwys deddfwrfeydd yn y DU, Awstralia, Canada, Cyprus, Ghana, India, Iwerddon, Jersey a Phacistan), ac ymchwil atodol a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeddfwrfeydd yn y DU.

- Yr amser seneddol sydd ar gael ar gyfer Biliau Aelod, a'r ffordd y mae amser o'r fath yn cael ei ddyrannu i Filiau unigol.
- Y mathau o ddeunyddiau esboniadol y mae rhaid neu y mae disgwyl eu cyflwyno i gyd-fynd â Biliau Aelod (gan gynnwys i ba raddau y mae unrhyw ofynion sy'n gymwys i Filiau Aelod yn debyg neu'n wahanol i'r gofynion sy'n gymwys i Filiau llywodraeth yn y ddeddfwrfa berthnasol).
- Y gwasanaethau cymorth seneddol a'r adnoddau sydd ar gael i'r Aelodau.

**16.** Mae'r amrywiadau hyn yn cyfyngu ar y graddau y gellir cymharu'n ystyrlon gyfraddau deddfu Biliau Aelod ar draws deddfwrfeydd. Serch hynny, mae Tabl 2 yn dangos cyfraddau deddfu Biliau Aelod y Senedd o gymharu â data ar gyfraddau deddfu mewn deddfwrfeydd eraill a ddarparwyd gan Dr Gover. Er bod rhaid bod yn ofalus wrth ddod i unrhyw gasgliadau pendant—yn rhannol oherwydd bod yr amserlenni ar gyfer y data'n amrywio, a bod cyfanswm nifer y Biliau Aelod yn y Senedd yn isel o gymharu â deddfwrfeydd eraill—mae'r gyfradd ddeddfu yn y Senedd tuag at ben uchaf y raddfa.

***Tabl 2 Cyfraddau deddfu Biliau Aelod (addaswyd o dystiolaeth a roddwyd gan Dr Gover)***

| Deddfwrfa | Amserlen | Biliau sydd wedi dod yn Ddeddfau |
|---|---|---|
| **Senedd Awstralia** | 1903 – 2025 | 24 (tua 3%) |
| **Cynulliad Cenedlaethol Ffrainc** | 2022 – 2024 | 60 o 1,438 (4%) |
| **Senedd y DU** | 2010 – 2024 | 110 o 2,516 (4%) |
| **Senedd Canada** | 2021 – 2025 | 24 o 316 (8%) |
| **Senedd Seland Newydd** | 2017 – 2020 | 16 o 56 (29%) |
| ***Y Senedd (ffigurau presennol)*** | *2007 – 2026* | *4 o 12 (33%)* |
| **Senedd yr Alban** | 1999 – 2021 | 31 o 76 (41%) |
| ***Y Senedd (ffigurau posibl)***[13] | *2007 – 2026* | *5 o 12 (42%)* |

[13] Mae'r ffigurau 'posibl' yn dangos y sefyllfa os bydd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn cael ei basio ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

# 3. Cymorth ac adnoddau ar gyfer Biliau Aelod

## Y cefndir

**17.** O dan y trefniadau presennol, mae tîm Bil integredig yn cael ei neilltuo i Aelodau sy'n cael eu dethol mewn balot ac sy'n cael caniatâd i gyflwyno Bil. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan glercod, ymchwilwyr, cyfreithwyr, cyfieithwyr, a swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu.

**18.** Mae profiad y Chweched Senedd yn awgrymu, gyda'r adnoddau a gynlluniwyd, y byddai'n eithriadol o anodd, mewn Senedd â 96 o Aelodau a etholir am dymhorau o bedair blynedd, parhau i gynnig yr un lefel o gymorth ag a roddir i'r Aelodau ar hyn o bryd gan staff y Comisiwn, pa fodel gweithdrefnol bynnag a fyddai'n cael ei fabwysiadu.

## Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**19.** Yn y Seithfed Senedd, mater i'r Comisiwn fydd penderfyniadau ynghylch y cymorth a'r adnoddau a fydd ar gael gan wasanaethau'r Comisiwn i Aelodau a ddetholir mewn balotau a/neu sy'n cael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod.

**20.** Fodd bynnag, cydnabu'r Pwyllgor Busnes fod ei adolygiad o Filiau Aelod yn digwydd yng nghyd-destun disgwyliad y bydd y model o ran cymorth ac adnoddau yn y Seithfed Senedd, yn ôl pob tebyg, yn wahanol iawn i'r hyn a ddarparwyd cyn hynny. Gallai'r gwahaniaethau gynnwys, er enghraifft:

- Y cydbwysedd rhwng yr hyn y bydd rhaid i'r Aelodau ddarparu adnoddau ar ei gyfer neu ei wneud drostynt eu hunain o fewn eu swyddfeydd neu drwy weithio gyda rhanddeiliaid allanol, a'r hyn a fydd yn cael ei wneud ar eu rhan gan wasanaethau'r Comisiwn.

- Ar ba adegau yn y broses y bydd yr Aelodau'n cael defnyddio gwasanaethau'r Comisiwn, ac ar gyfer pa ystod o weithgareddau.

- I ba raddau y bydd yr Aelodau'n cael defnyddio arbenigwyr yng ngwasanaethau'r Comisiwn.

# 4. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

## Ystyriaeth gychwynnol

**21.** Ar 26 Mehefin a 9 Gorffennaf 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes weithdrefnau'r Senedd ar gyfer Biliau Aelod, gan ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwanwyn 2025; profiad gweithdrefnau presennol y Senedd a'u canlyniadau; a dadansoddiad o weithdrefnau cyfatebol mewn deddfwrfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol.

**22.** Ar ôl trafod diben a nodau cyffredinol y weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod, gwnaeth y Pwyllgor Busnes y canlynol:

- Cydnabu fod Aelodau o'r Senedd yn gyffredinol wedi ceisio cyflwyno Biliau y mae modd eu deddfu a'u gweithredu, ac, er bod y rhwystrau rhag cymryd rhan yn fawr, fod amser seneddol wedi'i warantu ar gyfer Biliau Aelod a bod y cymorth sydd ar gael gan wasanaethau'r Comisiwn yn gymharol helaeth.
- Cytunodd, fel mater o egwyddor, y dylai Biliau Aelod barhau i fod yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau craffu ag unrhyw Fil arall a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26.
- Nododd dri model gweithdrefnol posibl i'w hystyried ymhellach.

## Modelau gweithdrefnol posibl

**23.** Ar 9 Hydref 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes dri model gweithdrefnol posibl yn fwy manwl:

i. Model yn seiliedig ar weithdrefnau Senedd yr Alban, lle gallai unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig drafft at ddibenion ymgynghori, ac yna gael yr hawl i gyflwyno Bil os yw wedi sicrhau digon o gefnogaeth drawsbleidiol i'w gynnig terfynol.

ii. Model balot enw yn unig, lle na fyddai rhaid i Aelodau gyflwyno cynnig mwyach er mwyn ymuno â'r balot, a lle byddai mwy o sicrwydd ynghylch nifer ac amseriad y cyfleoedd i gyflwyno Biliau Aelod.

iii. Model cyfunol, a fyddai'n cynnwys balot enw yn unig, a mecanwaith lle gallai Aelod na chafodd ei ddethol mewn balot gael yr hawl i

gyflwyno Bil drwy ddangos bod digon o gefnogaeth wleidyddol i'w gynnig.

**24.** Ar ôl ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 16 Hydref 2025 i gynnig model balot enw yn unig i'w ddefnyddio yn y Seithfed Senedd. Cytunodd y byddai'r manteision yn cynnwys:

- Cyfle i reoli nifer a llif Biliau Aelod drwy gydol tymor Senedd er mwyn rheoli effaith Biliau Aelod ar gapasiti'r Senedd i ddeddfu.
- Byddai'r broses yn gyfarwydd ar y cyfan i Aelodau a staff cymorth sy'n dychwelyd, Comisiwn y Senedd, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid.
- Byddai Aelodau sy'n ymuno â balot yn gallu dechrau ar y gwaith polisi cychwynnol ar ôl cael eu dethol, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y bydd gwaith yn cael ei wastraffu neu y bydd disgwyliadau rhanddeiliaid yn cael eu codi'n ormodol.
- Byddai model sy'n cynnwys mwy o sicrwydd ynghylch amseriad balotau a nifer posibl y cyfleoedd ym mhob Senedd yn ei gwneud yn haws rhagweld y gwaith, ac yn galluogi'r Aelodau, y Comisiwn, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynllunio'n fwy effeithiol.

## Gweithdrefn balot enw yn unig

### Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog

**25.** Ar 26 Tachwedd 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes gynigion manwl ar gyfer ffurf gweithdrefn balot enw yn unig, a gwnaeth benderfyniadau cychwynnol yn eu cylch.

**26.** Ar 29 Ionawr 2026, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig newidiadau i Reol Sefydlog 26 (fel y nodir yn Atodiadau 1 a 2) i roi ei weithdrefn balot enw yn unig arfaethedig ar gyfer Biliau Aelod ar waith. Mae Atodiad 4 yn nodi amserlenni dangosol sy'n gysylltiedig â chynigion y Pwyllgor Busnes.

### Nifer y balotau a nifer yr Aelodau sydd i'w dethol

**27.** Wrth ddatblygu ei gynigion, ceisiodd y Pwyllgor Busnes gadw cydbwysedd rhwng:

- Cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer Biliau Aelod.

- Rheoli effaith Biliau Aelod ar gapasiti'r Senedd i graffu.
- Ymateb yn gadarnhaol i adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad y byddai mwy o sicrwydd ynghylch amseriad y balotau a nifer y cyfleoedd i gyflwyno Biliau Aelod yn fuddiol.

**28.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y byddai model sy'n cynnwys dau falot, i'w cynnal ar adegau penodedig a phob un yn dethol sawl Aelod, yn ei gwneud yn haws rhagweld y gwaith ac yn rhoi mwy o sicrwydd o gymharu â'r trefniadau presennol, neu â model lle y byddai mwy o falotau'n cael eu cynnal a phob un yn dethol un Aelod. Gallai model o'r fath gynnig cyfleoedd i'r Aelodau a ddetholir yn yr ail falot (a'r rhai sydd am ymgysylltu â'r Aelodau hynny neu eu cefnogi) ddysgu o brofiad y rhai a ddetholwyd yn y balot cyntaf.

**29.** Trafododd y Pwyllgor Busnes hefyd a oedd am gynnig y dylid cynnal un balot yn gynnar yn ystod Senedd i ddethol pob cyfle posibl ar gyfer Biliau Aelod. Gallai hyn olygu bod mwy o amser ar gael i bob Aelod yn y broses gyfan, ond penderfynodd y Pwyllgor Busnes beidio â chynnig y model hwn oherwydd y gallai arwain at:

- Aelodau sydd newydd eu hethol yn teimlo o dan bwysau i gymryd rhan yn y broses Biliau Aelod cyn eu bod yn barod i wneud hynny.
- Risg y gallai nifer fawr o Filiau Aelod lethu busnes y Senedd yn ystod y cyfnod 'caniatâd i gyflwyno' a/neu gapasiti'r Senedd i graffu ar ôl i unrhyw Filiau Aelod gael eu cyflwyno.

**30.** Wrth ystyried y newid i dymhorau pedair blynedd, a'r posibilrwydd y gallai amgylchiadau annisgwyl godi, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig model sy'n darparu ar gyfer hyd at ddau falot, pob un yn dethol hyd at dri Aelod, sy'n rhoi uchafswm o chwe Bil Aelod posibl yn ystod pob Senedd.[14] O fewn y terfynau hyn, bydd gan y Llywydd ddisgresiwn o hyd, wrth benderfynu ar amserlen y balot, i bennu nifer y balotau sydd i'w cynnal a nifer yr Aelodau sydd i'w dethol.

## Amseriad balotau

[14] Mae'n bosibl y byddai llai na chwe Bil Aelod yn cael eu cyflwyno. Er enghraifft, pe bai'r Llywydd yn penderfynu bod llai na dau falot i'w cynnal neu y dylid dethol llai na thri Aelod mewn unrhyw falot; pe bai llai o Aelodau'n ymuno â balot na'r nifer sydd i'w dethol yn y balot hwnnw; pe bai'r Senedd yn pleidleisio yn erbyn cynnig 'caniatâd i gyflwyno'; neu pe bai Aelod sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil yn dewis peidio â'i gyflwyno.

**31.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 26.87 yn darparu bod balotau'n cael eu cynnal "o bryd i'w gilydd", yn ôl disgresiwn y Llywydd.

**32.** Trafododd y Pwyllgor Busnes sut y gellid geirio'r Rheolau Sefydlog i roi mwy o sicrwydd ynghylch amseriad balotau, ond gan osgoi bod yn rhy benodol a chan sicrhau digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau eithriadol neu ddigwyddiadau annisgwyl.[15]

**33.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y canlynol:

- Dylai fod yn ofynnol i'r Llywydd bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer balotau Biliau Aelod sydd i'w cynnal yn y Senedd honno.
- Er mwyn rhoi sicrwydd yn gynnar yn y Senedd ynghylch pryd y bydd cyfleoedd ar gael ar gyfer Biliau Aelod, rhaid cyhoeddi'r amserlen 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol' ar ôl etholiad y Senedd.
- Er mwyn rhoi hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau annisgwyl neu eithriadol, caiff y Llywydd, wedi hynny, wneud unrhyw newidiadau i'r amserlen y mae'n ystyried eu bod yn briodol.
- Caiff yr amserlen gynnwys hyd at ddau falot, pob un yn dethol hyd at dri Aelod. Os yw'r Llywydd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys, caiff yr amserlen ddarparu nad oes yr un balot i'w gynnal.

**34.** Wrth bennu'r amserlen, bydd angen i'r Llywydd roi sylw i amryw o ffactorau, gan gynnwys, er enghraifft, hyd disgwyliedig tymor y Senedd; y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach; capasiti'r Senedd i graffu; a ellir disgwyl yn rhesymol y bydd modd cyflwyno a phasio unrhyw Fil a gyflwynir gan Aelod a ddetholir mewn balot o fewn yr amser sy'n weddill yn y Senedd ar ôl dyddiad y balot; a'r capasiti sydd ar gael yng ngwasanaethau'r Comisiwn. Trafododd y Pwyllgor Busnes a ddylid pennu unrhyw ffactorau penodol yn y Rheolau Sefydlog fel materion y dylai fod yn ofynnol i'r Llywydd roi sylw iddynt. Ar y sail ei bod yn anodd rhagweld pa ffactorau fydd fwyaf perthnasol o dan unrhyw amgylchiadau penodol, cytunodd y byddai'n dda o beth gadael y materion hyn i ddisgresiwn y Llywydd.

## Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno'

[15] Er enghraifft, gellid disgwyl i Seneddau a etholir mewn etholiadau cyffredinol eithriadol bara o ychydig dros chwe mis i hyd at bedair blynedd a chwe mis. Mewn Senedd y disgwylir iddi fod yn sylweddol fyrrach na phedair blynedd, gallai'r Llywydd benderfynu ei bod yn briodol cynnal llai o falotau neu ddim balotau o gwbl, neu y bydd unrhyw falotau a gynhelir yn dethol llai o Aelodau.

**35.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 26.91 yn darparu y caiff Aelod a ddetholir mewn balot, o fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno iddo gyflwyno Bil. Mae hyn yn cynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd. Trafododd y Pwyllgor Busnes a fyddai'r terfyn amser hwn yn parhau i fod yn briodol mewn model balot enw yn unig.

**36.** Cydnabu'r Pwyllgor Busnes, gan na fydd yn ofynnol mwyach i Aelodau gyflwyno cynigion cyn y balot, ei bod yn bosibl na fyddant wedi penderfynu ar gynnig posibl cyn cael eu dethol. Cyn bod mewn sefyllfa i gyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno', bydd angen i Aelod ddatblygu cynnig (gan gynnwys gwneud unrhyw waith ymgynghori neu ymgysylltu cychwynnol, a/neu gael cyngor ar unrhyw faterion a allai godi o ran cymhwysedd deddfwriaethol neu faterion sy'n gysylltiedig â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020), a llunio gwybodaeth ategol briodol i gyd-fynd â'r cynnig 'caniatâd i gyflwyno'.

**37.** Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd, o dan y gweithdrefnau presennol, y gall y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno' a memorandwm esboniadol ddigwydd mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd; gall hyn olygu bod rhaid i rai Aelodau gyflwyno eu cynigion ymhell cyn bod y cynnig yn debygol o gael ei drafod.

**38.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno' fod o fewn 60 diwrnod gwaith (heb gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd) i ddyddiad y balot.

## Y terfyn amser ar gyfer trafod cynnig 'caniatâd i gyflwyno'

**39.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 26.92 yn darparu bod rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 35 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd). Mae hyn, i bob pwrpas, yn darparu o leiaf ddwy wythnos eistedd ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig 'caniatâd i gyflwyno' i'r Pwyllgor Busnes drefnu amser ar gyfer dadl.

**40.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes ei bod yn briodol i'r Rheolau Sefydlog barhau i ddarparu terfyn amser ar gyfer trefnu bod amser ar gael i drafod cynigion 'caniatâd i gyflwyno'. Mae'r terfyn amser yn gwarantu y bydd cyfle i drafod cynnig 'caniatâd i gyflwyno' a gyflwynir gan Aelod, ac mae'n helpu i reoli llif Biliau Aelod drwy'r broses.

**41.** Trafododd y Pwyllgor Busnes a fyddai cyfnod o ddwy wythnos eistedd o leiaf yn dal i fod yn briodol mewn model lle gellid dethol hyd at dri Aelod ym mhob balot. Wrth lunio barn, nododd y Pwyllgor Busnes fod y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil, os rhoddir caniatâd i'w gyflwyno, yn cael ei gyfrifo ar sail y dyddiad y rhoddir caniatâd i gyflwyno'r Bil; hynny yw, os cynhelir dadleuon ar gynigion 'caniatâd i gyflwyno' mewn wythnosau olynol, bydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno unrhyw Filiau sy'n deillio o hynny hefyd yn digwydd mewn wythnosau olynol.

**42.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylid estyn y terfyn amser ar gyfer trefnu bod amser ar gael i drafod cynigion 'caniatâd i gyflwyno', fel bod rhaid gwneud hynny o fewn 80 diwrnod gwaith (heb gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd) i ddyddiad y balot. Y rheswm am hyn yw y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd reoli effaith dethol sawl Aelod ym mhob balot ar fusnes y Cyfarfod Llawn a chapasiti'r Senedd i graffu ar ddeddfwriaeth, ond gan barhau i warantu y trefnir bod amser ar gael i drafod cynigion.

## Memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â chynigion 'caniatâd i gyflwyno'

**43.** Ar hyn o bryd, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol darparu memorandwm esboniadol Rheol Sefydlog 26.91A i gyd-fynd â chynnig 'caniatâd i gyflwyno', a rhaid iddo nodi:

- Teitl arfaethedig y Bil.
- Amcanion polisi arfaethedig y Bil.
- Manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed.
- Asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

**44.** Nododd y Pwyllgor Busnes fod Aelodau o'r Senedd a holwyd am eu profiadau o Filiau Aelod yn fodlon ar y cyfan fod y wybodaeth hon yn rhoi sail ddigonol i'r Senedd wneud penderfyniadau.[16] Cytunodd i beidio â chynnig unrhyw newidiadau i'r gofynion o ran gwybodaeth.

[16] Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Aelodau a swyddogion a chanddynt brofiad o Filiau Aelod, Mehefin 2025

**45.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y defnydd o'r term 'memorandwm esboniadol' i ddisgrifio'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu i gyd-fynd â chynnig 'caniatâd i gyflwyno'. Er mwyn lleihau'r risg o ddrysu rhwng y ddogfen hon a'r memorandwm esboniadol Rheol Sefydlog 26.6 sy'n ofynnol pan gyflwynir Bil, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylid disgrifio'r ddogfen 'caniatâd i gyflwyno' yn hytrach fel 'datganiad esboniadol'.

## Y goblygiadau os gwrthodir cynnig 'caniatâd i gyflwyno'

**46.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 26.94 yn darparu, os gwrthodir cynnig 'caniatâd i gyflwyno', na chaiff Aelod ymuno â balot gyda chynnig y mae ei amcanion polisi yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd, a hynny am chwe mis. Diben y cyfyngiad yw osgoi sefyllfa lle gofynnir i'r Senedd, o fewn cyfnod byr, ailystyried cynnig y mae eisoes wedi'i wrthod.

**47.** Yn y model balot enw yn unig arfaethedig, ni fydd yn ofynnol mwyach i Aelodau gyflwyno cynigion cyn y balot. Trafododd y Pwyllgor Busnes a oedd am gynnig y dylid dileu Rheol Sefydlog 26.94, neu gynnig y dylid ei diwygio i osod cyfyngiadau ar gyflwyno neu drafod cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 os gwrthodwyd cynnig ar gyfer Bil y mae ei amcanion polisi yn debyg i raddau helaeth yn ystod y chwe mis blaenorol.

**48.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylid dileu Rheol Sefydlog 26.94, am y rhesymau a ganlyn:

- Pe bai dau Aelod a ddetholir yn yr un balot yn dewis datblygu cynigion y mae eu hamcanion polisi yr un fath i raddau helaeth, mae'n annhebygol na fyddent yn dod i wybod am hynny cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynigion 'caniatâd i gyflwyno'. Os felly, gallai'r naill Aelod a'r llall osgoi unrhyw gyfyngiad drwy ddiwygio eu cynigion i'r graddau na fyddent bellach yr un fath 'i raddau helaeth'.
- Mae darpariaeth eisoes yn y Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd sy'n galluogi'r Swyddfa Gyflwyno, yn ôl disgresiwn llwyr y Llywydd, i wrthod derbyn cynigion sy'n codi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Senedd yn briodol. Byddai darpariaeth benodol mewn perthynas â chyflwyno cynigion Rheol Sefydlog 26.91 yn dyblygu hyn.
- O fewn model dau falot, mae'n debygol y byddai'r cyfnod o chwe mis ar ôl y dadleuon 'caniatâd i gyflwyno' yn sgil y balot cyntaf wedi dod i ben

cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynigion 'caniatâd i gyflwyno' yn sgil yr ail falot.

**49.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes efallai y byddai ei olynydd yn y Seithfed Senedd yn dymuno monitro gweithrediad y gweithdrefnau 'caniatâd i gyflwyno' fel y gall, yn ôl yr angen, ailystyried a oes angen unrhyw gyfyngiadau.

## Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil ar ôl cael caniatâd i'w gyflwyno

**50.** Roedd gan Aelodau o'r Senedd a swyddogion a holwyd am eu profiadau o Filiau Aelod farn gymysg ar y terfyn amser o 13 mis; dywedodd rhai ei fod yn rhoi ffocws, ac awgrymodd eraill ei fod yn annigonol neu'n rhy anhyblyg.[17] Awgrymodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd y dylid ystyried y terfyn amser, gan gynnwys y posibiliadau o ran mecanweithiau i estyn y terfyn amser o dan amgylchiadau penodol.[18]

**51.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad fod terfyn amser yn helpu i reoli effaith Biliau Aelod ar gapasiti'r Senedd i graffu ac ar wasanaethau'r Comisiwn. O fewn model dau falot, bydd hefyd yn sicrhau bod yr un faint o amser ar gael i bob Aelod, ni waeth ym mha falot y caiff ei ddethol, ac yn helpu i reoli llif Biliau Aelod yn ystod oes Senedd.

**52.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes:

- Fod 13 mis yn dal i fod yn gyfnod priodol i ddatblygu a chyflwyno Bil Aelod.
- Y gellir darparu ar gyfer cyfnod o 13 mis o fewn model dau falot sy'n gweithredu mewn Senedd bedair blynedd (gweler yr amserlenni dangosol yn Atodiad 4).

**53.** Daw caniatâd Aelod i gyflwyno Bil Aelod i ben ar ddiwedd 13 mis calendr ar ôl i'r Senedd dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91. Ar hyn o bryd, nid oes mecanwaith ar gyfer estyn y terfyn amser o 13 mis. Yn ogystal, oherwydd mai dim ond ar ddiwrnodau gwaith mewn wythnosau eistedd y gellir cyflwyno Biliau, gall yr amser sydd ar gael i Aelod fod hyd at wyth wythnos yn fyrrach os daw'r 13 mis i ben yn ystod toriad.

[17] Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Aelodau a swyddogion a chanddynt brofiad o Filiau Aelod, Mehefin 2025
[18] PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

**54.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig dau fecanwaith estyn:

- Mecanwaith awtomatig i ddarparu, os nad yw'r cyfnod o 13 mis yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, y byddai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil yn cael ei estyn tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl i'r 13 mis ddod i ben. Er y gallai hyn olygu bod rhai Aelodau yn cael hyd at naw wythnos o amser ychwanegol (os yw eu terfyn amser yn ystod wythnos gyntaf toriad yr haf), byddai'n osgoi sefyllfa lle byddai gan rai Aelodau hyd at wyth wythnos yn llai na'r 13 mis llawn (os yw eu terfyn amser yn ystod wythnos olaf toriad yr haf).
- Mecanwaith yn ôl disgresiwn i ddarparu y gallai Aelod sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil, cyn diwedd y cyfnod o 13 mis, wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i estyn y terfyn amser tan ddyddiad a bennir gan yr Aelod yn y cynnig. Byddai hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd (er enghraifft o dan amgylchiadau pan fo angen trafodaethau gwleidyddol terfynol, neu pan fo salwch Aelod am gyfnod wedi'i atal rhag bwrw ymlaen â'i Fil) a chyfle i'r Senedd benderfynu a yw'n fodlon bod yr estyniad y mae'r Aelod wedi gofyn amdano yn briodol (gan ystyried, er enghraifft, amgylchiadau'r Bil penodol, yr amser sy'n weddill yn y Senedd a'r rhaglen ddeddfwriaethol ehangach).

# 5. Materion eraill

## Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau

### Y cefndir

**55.** Yn y Bumed Senedd, cyflwynwyd dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau er mwyn caniatáu i Aelodau gyflwyno a thrafod cynigion sydd 'yn nodi' sy'n cynnig unrhyw fath o ddeddfwriaeth (Biliau, is-ddeddfwriaeth, Gorchmynion adran 109 neu 116C ac yn y blaen). Nid yw'r weithdrefn yn rhoi mynediad i'r broses Biliau Aelod. Mae dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau wedi'u seilio ar y canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd a gyhoeddwyd gan y Llywydd; nid oes gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i gynnal dadleuon o'r fath.

**56.** Clywodd y Pwyllgor Busnes awgrymiadau, gan gynnwys gan Aelodau a gymerodd ran mewn sesiwn galw heibio,[19] nad oes dealltwriaeth dda o ddiben Cynigion Deddfwriaethol Aelodau, ac y gall Aelodau a rhanddeiliaid deimlo'n rhwystredig nad yw pleidlais gadarnhaol ar y cynnig sydd 'yn nodi' yn arwain at gamau deddfwriaethol.

### Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**57.** Ar 26 Tachwedd 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes ei farn ar ddadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau yng nghyd-destun ei fwriad i gynnig gweithdrefn balot enw yn unig ar gyfer Biliau Aelod.

**58.** Cydnabu'r Pwyllgor Busnes y gallai fod dryswch ynghylch dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau, a'r hyn y gallant ei gyflawni. Er hynny, nododd Rheolwyr Busnes fod dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau yn gyfle gwerthfawr i Aelodau brofi ac archwilio syniadau ar gyfer deddfwriaeth—a all helpu i ddatblygu neu newid syniadau gwleidyddol ynghylch y mater dan sylw—a'u bod yn rhoi cyfleoedd i Aelodau unigol ar y meinciau cefn gynnig ac arwain busnes yn y Cyfarfod Llawn.

**59.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ofyn i'r Llywydd ystyried diwygio'r canllawiau er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd i benderfynu a yw am drefnu amser ar gyfer dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau a phryd i wneud hynny, ac er mwyn egluro rôl a diben dadleuon o'r fath.

## Cyfranogiad yr Aelodau yng ngwaith craffu'r pwyllgorau

### Y cefndir

**60.** Yr arfer ar hyn o bryd yn y Senedd yw cynghori aelod o bwyllgor sy'n Aelod sy'n gyfrifol am Fil, neu sydd â chysylltiad agos fel arall â Bil y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn gwrthdaro â'i rôl graffu, i ymesgusodi o'i wirfodd rhag cymryd rhan pan fo'r pwyllgor yn trafod y Bil hwnnw (ac eithrio fel aelod o Bwyllgor o'r Senedd Gyfan). Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, aelodau o bwyllgorau a oedd, ar adeg berthnasol yn:

- Aelod a oedd yn gyfrifol am Fil Aelod.

[19] Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd yn ystod sesiwn galw heibio i Aelodau, Mehefin 2025

- Aelodau o Gomisiwn y Senedd, yn ystod gwaith craffu ar Fil Comisiwn.
- Aelodau a oedd yn aelodau o Lywodraeth Cymru ychydig cyn cyflwyno Bil llywodraeth, ond a adawodd y llywodraeth yn ddiweddarach.
- Aelodau Dynodedig at ddibenion y Cytundeb Cydweithio.
- Aelodau o bwyllgorau a oedd yn gyfrifol am lunio adroddiadau a fyddai'n sail i gyfarwyddiadau polisi ar gyfer Biliau llywodraeth ynghylch diwygio'r Senedd.

**61.** Nid oes unrhyw gyfyngiad gweithdrefnol ffurfiol ar Aelodau o'r fath rhag cymryd rhan fel aelodau o bwyllgor neu ddirprwyon wrth graffu ar y Bil perthnasol. Mae'r canllaw i'r broses ar gyfer Bil Aelod yn nodi'r drefn arferol o ran Biliau Aelod. Rhoddir cyngor i'r Aelodau fesul achos ynghylch unrhyw wrthdaro posibl arall.

**62.** Yn Senedd yr Alban, mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys cyfyngiadau ffurfiol ar gyfranogiad aelod o bwyllgor sy'n Aelod sy'n gyfrifol am Fil, aelod o bwyllgor sydd wedi cynnig Bil pwyllgor, neu aelod o Lywodraeth yr Alban (mewn perthynas â Bil llywodraeth) ym musnes y pwyllgorau (ac eithrio Pwyllgor o'r Senedd Gyfan) sy'n ymwneud â Bil.

## Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**63.** Ar 26 Tachwedd 2025, ystyriodd y Pwyllgor Busnes weithdrefnau Senedd yr Alban, a thrafododd a fyddai gweithdrefnau tebyg yn briodol yng nghyd-destun y Senedd. Nododd fod gwahaniaethau allweddol rhwng fframwaith gweithdrefnol Senedd yr Alban a fframwaith gweithdrefnol y Senedd (yn benodol, o ran y trefniadau ar gyfer dirprwyo mewn pwyllgorau) a fyddai'n cymhlethu camau i fabwysiadu gweithdrefnau tebyg yn y Senedd. Nododd hefyd, er y gallai gweithdrefnau o'r fath ffurfioli rhai elfennau o arferion presennol y Senedd, na fyddent yn gallu ymdrin â'r holl amgylchiadau lle gallai fod yn briodol i aelod o bwyllgor ymesgusodi o'i wirfodd o ystyried Bil.

**64.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad, er nad oedd am ystyried cynnig unrhyw newid gweithdrefnol yn hyn o beth, y dylai'r arfer presennol barhau, sef bod aelodau o bwyllgor yn ymesgusodi o ystyriaeth pwyllgor ar Fil os gallai unrhyw wrthdaro godi.

# 6. Penderfyniad

**65.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 29 Ionawr 2026 i gynnig newidiadau i Reol Sefydlog 26. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i newid y Rheolau Sefydlog fel y nodir yn Atodiad 1.

# Atodiad 1 Rheolau Sefydlog arfaethedig 24 a 26 a nodiadau esboniadol

| | **Rheol Sefydlog** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| **Rheol Sefydlog 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth** | | |
| **Biliau Aelod** | | Cadw'r is-bennawd |
| **24.15** | Yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Aelod yw:<br>(i) yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil o dan Reol Sefydlog 26.91;<br>(ii) Aelod arall sydd wedi'i awdurdodi gan yr Aelod o dan Reol Sefydlog 24.15(i), drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw; neu<br>(iii) os na wneir awdurdodiad o'r fath, unrhyw Aelod sydd wedi'i awdurdodi gan y Senedd. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Senedd** | | |
| **Ffurf Biliau a Sut i'w Cyflwyno** | | Cadw'r is-bennawd |
| **26.1** | Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 26.81~~26.80~~ i 26.94A,~~26.94~~ caniateir i Fil gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn diweddaru'r croesgyfeiriadau ar gyfer yr ystod o Reolau Sefydlog sydd ddim ond yn gymwys i Filiau nad ydynt yn Filiau llywodraeth, i adlewyrchu'r ffaith bod Rheol Sefydlog 26.80 wedi'i dileu yn 2017, a Rheol Sefydlog 26.94A wedi'i mewnosod yn 2016. |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| **Biliau yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl** | | Cadw'r is-bennawd |
| **26.78** | Bydd cymeradwyaeth i gyflwyno Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.91 yn peidio â bod pan gaiff y Senedd ei diddymu. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **Biliau Aelod** | | Cadw'r is-bennawd |
| **26.85** | Mae Rheolau Sefydlog <u>26.87</u>~~26.86~~ i <u>26.94A</u>~~26.94~~ yn gymwys i Filiau Aelod yn unig. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn diweddaru'r croesgyfeiriadau ar gyfer yr ystod o Reolau Sefydlog sydd ddim ond yn gymwys i Filiau Aelod, i adlewyrchu'r ffaith bod Rheol Sefydlog 26.86 wedi'i dileu yn 2011, a Rheol Sefydlog 26.94A wedi'i mewnosod yn 2016. |
| **26.86** | [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 16 Tachwedd 2011] | |
| **26.87** | ~~O bryd i'w gilydd, r~~<u>R</u>haid i'r Llywydd<u>, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad y Senedd, bennu a chyhoeddi amserlen sy'n nodi:</u><br><u>(i) nifer y balotau sydd i'w cynnal i ddethol enwau Aelodau,</u> ~~gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod~~ heblaw aelod<u>au</u> o'r llywodraeth<u>,</u> a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod<u>, a</u><br><u>(ii) nifer enwau'r Aelodau sydd i'w dethol ym mhob balot</u>. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newidiadau i'r Rheol Sefydlog yn cael gwared ar y disgresiwn llwyr sydd gan y Llywydd ar hyn o bryd o ran amseriad y balotau a'u nifer ac yn rhoi yn ei le ofyniad i'r Llywydd bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer y balotau sydd i'w cynnal yn ystod y Senedd honno. |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| | | Er mwyn rhoi sicrwydd yn gynnar yn y Senedd ynghylch pryd y bydd cyfleoedd ar gael ar gyfer Biliau Aelod, rhaid cyhoeddi'r amserlen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad y Senedd. |
| **26.87A** | Caiff y Llywydd wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r amserlen ag y gwêl yn dda. | Rheol Sefydlog newydd<br>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cyd-fynd â'r newidiadau i Reol Sefydlog 26.87. Byddai'n rhoi hyblygrwydd i newid yr amserlen pe bai'r amgylchiadau'n gofyn am hynny. |
| **26.87B** | Ni chaiff yr amserlen gynnwys mwy na dau falot, ac ni chaiff bennu bod unrhyw falot i ddethol enwau mwy na thri Aelod. Os oes amgylchiadau eithriadol yn gymwys ym marn y Llywydd, caiff yr amserlen ddarparu nad oes yr un balot i'w gynnal. | Rheol Sefydlog newydd<br>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn pennu'r nifer uchaf o falotau y caniateir eu cynnwys yn yr amserlen, a'r nifer uchaf o Aelodau y caiff pob balot eu dethol.<br>Yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau hyn, byddai gan y Llywydd ddisgresiwn, wrth bennu'r amserlen, o ran nifer y balotau a nifer yr Aelodau sydd i'w dethol. Mae hyn yn cynnwys, os yw'r Llywydd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys, penderfynu nad oes yr un balot i'w gynnal yn ystod y Senedd honno. |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| **26.88** | Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys~~ ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90~~. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn dileu'r cyfeiriad at ddarparu gwybodaeth cyn y balot, gan na fydd hynny'n ofynnol mwyach ar gyfer balot enw yn unig. |
| **26.89** | Ni chaiff Aelod sydd wedi ei ddethol mewn~~ennill y~~ balot o'r blaen yn y Senedd honno wneud cais o'r fath. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn dileu'r cyfeiriad at Aelod yn 'ennill' y balot. Gan y byddai mwy nag un Aelod yn cael ei ddethol, mae angen i'r Rheol Sefydlog adlewyrchu'r ffaith bod pob Aelod sydd wedi'i ddethol mewn balot yn anghymwys i wneud cais i gael ei gynnwys mewn balot dilynol. |
| **26.90** | ~~Yr wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn y balot yw:~~<br>~~(i) teitl arfaethedig y Bil; a~~<br>~~(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Nid oes angen y meini prawf ar gyfer gwybodaeth cyn y balot mwyach, gan na fydd rhaid i Aelodau gyflwyno gwybodaeth cyn y balot i ymuno â balot enw yn unig. |
| **26.91** | O fewn 60~~25~~ diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd), caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu'r cyfnod pan gaiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig i |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| | | ofyn i'r Senedd gytuno iddo gyflwyno Bil.<br>Byddai hefyd yn darparu mai dim ond diwrnodau gwaith mewn wythnosau eistedd sy'n cael eu cyfrif; byddai hyn yn golygu na allai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig ddigwydd yn ystod toriad, gan osgoi sefyllfa lle mae'r amser sydd ar gael i'r Aelod yn cael ei gwtogi'n artiffisial. |
| **26.91A** | Rhaid darparu ~~Memorandwm~~datganiad ~~E~~esboniadol i gyd-fynd â'r cynnig, a rhaid ~~i'r Memorandwm Esboniadol hwnnw~~iddo nodi:<br>(i) teitl arfaethedig y Bil;<br>(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil;<br>(iii) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac<br>(iv) asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu bod y ddogfen y mae rhaid ei darparu i gyd-fynd â chynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 i'w galw'n ddatganiad esboniadol yn hytrach nag yn femorandwm esboniadol. Y nod yw osgoi dryswch rhwng y ddogfen hon a'r memorandwm esboniadol y mae rhaid i'r Aelod ei osod o dan Reol Sefydlog 26.6 os bydd yn cyflwyno Bil. |
| **26.91B** | ~~Rhaid i'r amcanion polisi a'r teitl arfaethedig a nodir o dan Reol Sefydlog 26.91A(i) a (ii) fod yn gyson, yn fras, â'r rhai a ddarperir o dan Reol Sefydlog 26.90. Rhaid nodi'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol o dan Reol Sefydlog 26.91A.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Ni fydd rhaid i Aelodau gyflwyno gwybodaeth cyn y balot er mwyn ymuno â balot enw yn unig, felly nid |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| | | oes angen Rheol Sefydlog 26.91B mwyach. |
| **26.92** | Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 80~~35~~ diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd). | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu'r cyfnod pan fo rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.91. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig o'r fath, a hefyd yn helpu i reoli effaith dadleuon o'r fath ar fusnes y Cyfarfod Llawn drwy estyn y cyfnod pan fo rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod y cynnig i'w wneud ddwy wythnos eistedd yn hwy. |
| **26.93** | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn tri mis ar ddeg i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r amcanion polisi arfaethedig a nodwyd yn y ~~Memorandwm~~datganiad ~~E~~esboniadol a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 26.91A gael eu rhoi ar waith. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26.91A i newid y disgrifiad o'r ddogfen sy'n cyd-fynd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 o femorandwm esboniadol i ddatganiad esboniadol. |
| **26.93A** | Os nad yw'r cyfnod o dri mis ar ddeg yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, estynnir y terfyn | Rheol Sefydlog newydd<br>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn osgoi sefyllfa lle na all yr Aelod wneud |

| | Rheol Sefydlog | Nodiadau |
|---|---|---|
| | amser ar gyfer cyflwyno'r Bil tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl i'r tri mis ar ddeg ddod i ben. | defnydd llawn o'r 13 mis am eu bod yn dod i ben yn ystod toriad. Mae'n darparu, os daw'r 13 mis i ben ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, fod y cyfnod pan gaiff yr Aelod gyflwyno Bil yn cael ei estyn yn awtomatig tan ddiwedd yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl y diwrnod y daw'r cyfnod o 13 mis i ben. |
| 26.93B | Cyn diwedd y cyfnod o dri mis ar ddeg (fel y'i hestynnwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.93A os yw hynny'n berthnasol), caiff yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil tan ddyddiad a bennir yn y cynnig. | Rheol Sefydlog newydd<br>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn galluogi Aelod sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil i geisio cytundeb y Senedd i estyn y cyfnod o 13 mis tan ddyddiad penodedig. Os na dderbynnir y cynnig a wnaed gan yr Aelod, byddai'r terfyn amser yn parhau i fod o fewn 13 mis i'r dyddiad y rhoddwyd caniatâd i gyflwyno'r Bil. |
| **26.94** | ~~Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, ni chaiff Aelod ymuno ag unrhyw falot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw amcanion polisi y Bil y mae'n ceisio cytundeb i'w gyflwyno yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Gan na fydd yn ofynnol mwyach i Aelodau gyflwyno cynigion er mwyn ymuno â balot, nid oes angen Rheol Sefydlog 26.94 mwyach. |
| **26.94A** | Ni chaniateir i Filiau Aelod geisio diwygio trethi presennol, na chyflwyno trethi newydd. | Cadw'r Rheol Sefydlog |

# Atodiad 2 Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth

### Biliau Aelod

24.15 Yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Aelod yw:

(i) yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil o dan Reol Sefydlog 26.91;

(ii) Aelod arall sydd wedi'i awdurdodi gan yr Aelod o dan Reol Sefydlog 24.15(i), drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw; neu

(iii) os na wneir awdurdodiad o'r fath, unrhyw Aelod sydd wedi'i awdurdodi gan y Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd

### Ffurf Biliau a Sut i'w Cyflwyno

26.1 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 26.81 i 26.94A, caniateir i Fil gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.

### Biliau yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl

26.78 Bydd cymeradwyaeth i gyflwyno Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.91 yn peidio â bod pan gaiff y Senedd ei diddymu.

### Biliau Aelod

26.85 Mae Rheolau Sefydlog 26.87 i 26.94A yn gymwys i Filiau Aelod yn unig.

26.86 [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 16 Tachwedd 2011]

26.87 Rhaid i'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad y Senedd, bennu a chyhoeddi amserlen sy'n nodi:

(i) nifer y balotau sydd i'w cynnal i ddethol enwau Aelodau, heblaw aelodau o'r llywodraeth, a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod, a

(ii) nifer enwau'r Aelodau sydd i'w dethol ym mhob balot.

26.87A Caiff y Llywydd wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r amserlen ag y gwêl yn dda.

26.87B Ni chaiff yr amserlen gynnwys mwy na dau falot, ac ni chaiff bennu bod unrhyw falot i ddethol enwau mwy na thri Aelod. Os oes amgylchiadau eithriadol yn gymwys ym marn y Llywydd, caiff yr amserlen ddarparu nad oes yr un balot i'w gynnal.

26.88 Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys.

26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi ei ddethol mewn balot o'r blaen yn y Senedd honno wneud cais o'r fath.

26.90 [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar DYDDIAD]

26.91 O fewn 60 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd), caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod.

26.91A Rhaid darparu datganiad esboniadol i gyd-fynd â'r cynnig, a rhaid iddo nodi:

(i) teitl arfaethedig y Bil;

(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil;

(iii) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac

(iv) asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

26.91B [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar DYDDIAD]

26.92 Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 80 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd).

26.93 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn tri mis ar ddeg i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r amcanion polisi arfaethedig a nodwyd yn y datganiad esboniadol a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 26.91A gael eu rhoi ar waith.

26.93A Os nad yw'r cyfnod o dri mis ar ddeg yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, estynnir y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil

tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl i'r tri mis ar ddeg ddod i ben.

26.93B Cyn diwedd y cyfnod o dri mis ar ddeg (fel y'i hestynnwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.93A os yw hynny'n berthnasol), caiff yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil tan ddyddiad a bennir yn y cynnig.

26.94 [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar DYDDIAD]

26.94A Ni chaniateir i Filiau Aelod geisio diwygio trethi presennol, na chyflwyno trethi newydd.

# Atodiad 3 Balotau ar gyfer Biliau Aelod rhwng 2007 a 2026

Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r balotau Biliau Aelod a gynhaliwyd a hynt y cynigion a'r Biliau a ddeilliodd o hynny drwy'r weithdrefn ar gyfer Biliau Aelod.

***Tabl 3 Balotau Biliau Aelod rhwng 2007 a 2026: Biliau'n pasio pob carreg filltir fel canran o'r cynigion a ddetholwyd*[20]**

| | Y Trydydd Cynulliad | Y Pedwerydd Cynulliad | Y Bumed Senedd | Y Chweched Senedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd** | 4 blynedd | 5 mlynedd | 5 mlynedd | 5 mlynedd | 19 blynedd |
| **Balotau a gynhaliwyd** | 11 | 8 | 3 | 4 | 26 |
| **Cynigion a ddetholwyd** | 9[21] | 9[22] | 3 | 4 | 25 |
| **Caniatâd i gyflwyno wedi'i roi** | 4 (44%) | 6 (67%) | 1 (33%) | 4 (100%) | 15 (60%) |
| **Biliau wedi'u cyflwyno** | 3 (33%) | 5 (56%) | 1 (33%) | 3 (75%) | 12 (48%) |
| **Cynigion Cyfnod 1 wedi'u derbyn** | 2 (22%) | 3 (33%) | 0 (0%) | 1 (25%) | 6 (24%) |
| **Cynigion Cyfnod 4 wedi'u derbyn** | 2 (22%) | 3 (33%) | 0 (0%) | Presennol: 0 (0%)<br>Posibl: 1 (25%) | Presennol: 5 (20%)<br>Posibl: 6 (24%) |

[20] Mae'r ffigurau 'posibl' yn dangos y sefyllfa os bydd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn cael ei basio ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys Mesur arfaethedig Aelod a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol yn y Trydydd Cynulliad ar ôl i Aelod gael ei ddethol mewn balot Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ac yna arfer yr hawl a roddwyd iddo drwy hynny i gyflwyno Mesur arfaethedig.
[21] Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion mewn dau o'r balotau a gynhaliwyd.
[22] Detholwyd dau gynnig yn un o'r balotau a gynhaliwyd.

| | Y Trydydd Cynulliad | Y Pedwerydd Cynulliad | Y Bumed Senedd | Y Chweched Senedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi cael y Cydsyniad Brenhinol** | 2 (22%) | 2 (22%)[23] | 0 (0%) | Presennol: 0 (0%)<br>Posibl: 1 (25%) | Presennol: 4 (16%)<br>Posibl: 5 (20%) |

***Tabl 4 Balotau Biliau Aelod rhwng 2007 a 2026: Biliau'n pasio pob carreg filltir fel canran o'r Biliau a gyflwynwyd***[24]

| | Y Trydydd Cynulliad | Y Pedwerydd Cynulliad | Y Bumed Senedd | Y Chweched Senedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd** | 4 blynedd | 5 mlynedd | 5 mlynedd | 5 mlynedd | 19 blynedd |
| **Biliau wedi'u cyflwyno** | 3 | 5 | 1 | 3 | 12 |
| **Cynigion Cyfnod 1 wedi'u derbyn** | 2 (67%) | 3 (60%) | 0 (0%) | 1 (33%) | 6 (50%) |
| **Cynigion Cyfnod 4 wedi'u derbyn** | 2 (67%) | 3 (60%) | 0 (0%) | Presennol: 0 (0%)<br>Posibl: 1 (33%) | Presennol: 5 (42%)<br>Posibl: 6 (50%) |
| **Wedi cael y Cydsyniad Brenhinol** | 2 (67%) | 2 (40%)[25] | 0 (0%) | Presennol: 0 (0%)<br>Posibl: 1 (33%) | Presennol: 4 (33%)<br>Posibl: 5 (42%) |

[23] Pasiwyd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), ond fe'i cyfeiriwyd at y Goruchaf Lys wedi hynny. Canfu'r Goruchaf Lys nad oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu'r Bil ar ei ffurf bresennol. Nid oedd y Bil wedi'i gymeradwyo erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, ac felly methodd yn unol â Rheol Sefydlog 26.77.
[24] Gweler troednodyn 20.
[25] Gweler troednodyn 23.

# Atodiad 4 Amserlenni dangosol

Mae'r tabl isod yn nodi'r amserlenni dangosol yn y Seithfed Senedd ar gyfer y weithdrefn balot enw yn unig ar gyfer Biliau Aelod a gynigir gan y Pwyllgor Busnes.

Mater i'r Llywydd fydd amseriad y balotau. At ddiben yr amserlenni dangosol, tybir y cynhelir un balot yn yr hydref ym mlwyddyn yr etholiad, a'r ail yn yr hydref y flwyddyn ganlynol. Tybir hefyd y bydd toriadau'r Seithfed Senedd yn dilyn patrymau sefydledig.

| | **Balot 1** | | **Balot 2** | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynharaf | Hwyraf | Cynharaf | Hwyraf |
| **Dyddiad y balot** | Dydd Llun 5 Hydref 2026 | Dydd Gwener 6 Tachwedd 2026 | Dydd Llun 13 Medi 2027 | Dydd Gwener 22 Hydref 2027 |
| **Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynnig**[26] | Dydd Llun 25 Ionawr 2027 | Dydd Gwener 26 Chwefror 2027 | Dydd Llun 13 Rhagfyr 2027 | Dydd Gwener 11 Chwefror 2028 |
| **Y terfyn amser ar gyfer trefnu bod amser ar gael i'w drafod**[27] | Dydd Llun 1 Mawrth 2027 | Dydd Gwener 16 Ebrill 2027 | Dydd Llun 31 Ionawr 2028 | Dydd Gwener 17 Mawrth 2028 |
| **Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil**[28] | Dydd Sadwrn 1 Ebrill 2028 (wedi'i estyn yn awtomatig tan ddydd | Dydd Mawrth 16 Mai 2028 | Dydd Mercher 28 Chwefror 2029 | Dydd Mawrth 17 Ebrill 2029 |

[26] Y 60fed diwrnod gwaith (heb gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd) ar ôl diwrnod y balot.
[27] Y 80fed diwrnod gwaith (heb gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau pan na fydd y Senedd yn eistedd) ar ôl diwrnod y balot.
[28] Mae'r dyddiadau a ddangosir 13 mis calendr o'r terfyn amser ar gyfer trafod cynigion 'caniatâd i gyflwyno' ar ôl pob balot. Byddai'r terfynau amser gwirioneddol yn cael eu cyfrifo ar sail y dyddiad y byddai pob cynnig yn cael 'caniatâd i gyflwyno'. Yn unol â chynigion y Pwyllgor Busnes, bydd terfyn amser sy'n digwydd ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd yn cael ei estyn yn awtomatig tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd nesaf.

| | Balot 1 | | Balot 2 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwener 7 Ebrill 2028) | | | |
| **Dadl Cyfnod 4 (amcangyfrif)** | Ionawr / Chwefror 2029 | Chwefror / Mawrth 2029 | Rhagfyr 2029 | Ionawr 2030 |